Yn ystod y Pandemig, daeth rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi iechyd a diogelwch cyhoeddus yn amlwg iawn. Yng Nghymru, rhoddodd y BBC sylw cynhwysfawr i bolisiau diogelwch iechyd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y sesiynau briffio dyddiol a ddarparwyd gan y Prif Weinidog a gweinidogion eraill yn ystod y cyfnodau clo. Daeth rôl adrodd y BBC yn wasanaeth hanfodol, fel mater o angen brys, er mwyn i'r cyhoedd yng Nghymru allu deall sut roedd y Pandemig yn datblygu a

<sup>10</sup> t19, Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2022 i Gymru

<sup>11</sup> t19, Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2022 i Gymru

<sup>12</sup> t21, Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2022 i Gymru

sut roedd y cyfyngiadau'n cael eu mireinio a'u diwygio mewn ymateb i'r newidiadau yn y gofynion meddygol, wrth i heintiau feirysol ac, yn ddiweddarach, y rhaglen frechu ddod i'r amlwg. Roedd y gwasanaeth hefyd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am rôl Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Er enghraifft, yn ystod haf 2020, dywedodd y BBC fod yr Heddlu wedi troi mwy na 1,000 o geir yn ôl o un man prydferth yng Nghymru mewn dim ond dau ddiwrnod am dorri rheolau'r cyfyngiadau symud. Dywedodd Heddlu Dyfed-Powys fod llawer o bobl y bu eu swyddogion yn siarad â nhw ym Mannau Brycheiniog yn dod o Loegr a'u bod yn dweud nad oeddent yn gwybod bod y rheolau yn wahanol yng Nghymru<sup>13</sup>.

Yn ein hymateb i Ymgynghoriad Ofcom ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, a gyflwynwyd gennym i Ofcom ym mis Mawrth 2021, roeddem yn dadlau, mewn perthynas â gofynion presennol trwydded seiliedig ar oriau y BBC ar gyfer Cymru, y byddai *"amgylchedd rheoleiddio newydd yn rhoi cyfle i BBC Cymru Wales gael trosolwg mwy cyfannol o'i allbwn, yn enwedig gan fod gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw yn gostwng yn gyffredinol, tra mae gwyllo ar-lein ar alw, er enghraifft drwy BBC iPlayer, yn cynyddu'n sylweddol. Gellid dadlau y dylid rhyddhau'r darlledwr i wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n dod ag ansawdd uwch i'r sgrin, yn hytrach na chael ei glymu drwy'r amser i ofynion i ddarparu nifer penodol o oriau."* Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod y dylid diogelu genres hanfodol fel newyddion a materion cyfoes a dylai'r cwotâu gofynnol ar sail oriau ar gyfer y genres hyn gael eu cynnal.

Yn yr ymgynghoriad, dywed Ofcom hyn: *"Hyd yn oed ers i ni ddechrau rheoleiddio'r BBC yn 2017, mae'r dewis o gynnwys a gwasanaethau sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU wedi parhau i dyfu'n sylweddol, wedi'i ysgogi gan ddarparwyr byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda, fel Netflix, Disney+ a Spotify."* Rydym yn cytuno â dadansoddiad Ofcom yn 9.13 yr ymgynghoriad, fod gofynion y drwydded bresennol o ran cwotâu rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn berthnasol yn bennaf i wasanaethau 'optio allan' teledu'r BBC ac y dylai'r drwydded newydd gynnwys mwy o ffocws ar ddatblygu gwasanaethau ar-lein i Gymru, o ystyried y newidiadau sylweddol mewn arferion gwyllo. Rydym yn nodi, yn Adroddiad Cyfryngau'r Genedl diweddaraf Ofcom i Gymru, y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVOD) a fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu (BVOD) yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad, roedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi codi 71% yn Ch1 2022, gyda 71% o gartrefi Cymru yn tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth, wedi codi o 64% yn Ch4 2021. Roedd gan wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr lefelau tebyg o ran cyrhaeddiad i SVOD, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn defnyddio nifer o wasanaethau ffrydio, er mai BBC iPlayer oedd y gwasanaeth ffrydio mwyaf poblogaidd yng Nghymru, yn cael ei ddefnyddio gan 77% o oedolion ar-lein a phobl ifanc yn eu harddegau. Er hynny, mae'r argyfwng costau byw presennol yn debygol o gael effaith ar danysgrifiadau SVOD dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r newidiadau hyn yn y dirwedd cyfryngau hefyd wedi dod â heriau sylweddol i BBC Cymru Wales. Yn dilyn hwb dros dro yn ystod y Pandemig, mae'r niferoedd sy'n gwyllo teledu llinol yng Nghymru, o un flwyddyn i'r llall, yn gostwng. Mae data yn adroddiad Ofcom 2022 Cyfryngau'r Genedl yn dangos bod yr amser cyfartalog roedd pobl yng Nghymru yn gwyllo cynnwys teledu a fideo, ar draws pob dyfais, yn 2021 wedi gostwng 33 munud, i 4 awr 33 munud, o'i gymharu â 2020. Ar

---

<sup>13</sup> <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52929780>

gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru wedi gwyllo 3 awr 8 munud o deledu wedi'i ddarlledu bob dydd yn 2021. Ond er mai dyma'r ail uchaf o blith holl wledydd y DU, roedd y gostyngiad cyfartalog yng Nghymru yn 12.6% rhwng 2020 a 2021, o'i gymharu â gostyngiad o 9.9% ar draws y DU, sef y gostyngiad mwyaf mewn gwyllo teledu dyddiol yng ngwledydd y DU.

Fodd bynnag, er bod y duedd gyffredinol yn awgrymu gostyngiad mewn gwyllo teledu llinol, dylid bod yn ofalus wrth drin ffigurau y pen y wlad o ran munudau dyddiol cyfartalog yn gwyllo teledu a ddarlledir, gan eu bod yn seiliedig ar ddata o system panel BARB. Er bod sampl BARB y DU o 5,300 o gartrefi ledled y DU yn ddigon mawr i ddarparu data dibynadwy ar wyllo ar y rhwydwaith, gallai maint bychan panel BARB y BBC yng Nghymru (tua 250 o bobl) fod yn llawer mwy anwadal a chynhyrchu data llai dibynadwy ynghylch patrymau gwyllo yng Nghymru. Neu, gallai'r nifer cynyddol o ddefnyddwyr iPlayer sydd wedi cofrestru yng Nghymru, sydd hefyd yn cyd-fynd yn agosach â'r nifer sy'n defnyddio'r drwydded, fod yn llawer mwy dibynadwy. Ond er ein bod yn credu'n anecdotaidd y gallai gwyllo gwasanaethau iPlayer yng Nghymru fod yn cynyddu, nid oes gennym fynediad at unrhyw ddata sy'n cefnogi'r farn hon. Rydym felly yn credu y dylai Ofcom gael data defnydd o iPlayer ar sail gwlad, hyd yn oed petai'n rhaid i hyn gael ei ddarparu'n gyfrinachol gan y BBC oherwydd sensitifrwydd masnachol, er mwyn cael darlun mwy cywir o dueddiadau gwyllo yn y byd go iawn ar lefel is-rwydwaith.

Ar hyn o bryd, o dan delerau Trwydded Weithredu'r BBC, mae'n rhaid i BBC Cymru Wales ddarparu oriau penodol o allbwn i wylwyr yng Nghymru drwy wasanaethau llinol y BBC, gan gynnwys 275 awr o newyddion a rhaglenni materion cyfoes ar BBC One Wales, ynghyd â 65 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a 175 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar BBC Two Wales. Yn y drwydded bresennol nid oes gofyniad i'r oriau nad ydynt yn newyddion fod yn rhaglenni newydd a ddarlledir am y tro cyntaf. Mae gofynion allbwn sy'n seiliedig ar nifer yr oriau hefyd yn bodoli ar gyfer BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, a gofyniad cynnwys ar-lein i BBC Cymru Wales sicrhau ei bod yn darparu newyddion a gwybodaeth am Gymru ynghyd â chynnwys yn y Gymraeg a sylw penodol i chwaraeon.

Mae'n werth nodi, yn ôl Adroddiad Blynyddol diweddaraf y BBC ar gyfer 2021/22<sup>14</sup>, bod BBC Cymru Wales wedi darparu amrywiaeth eang o gynnwys heb fod yn newyddion yn benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, a oedd yn cynnwys cyfresi drama fel **Hidden** (a gynhyrchwyd ar y cyd ag S4C), a **The Pact**, a ddarlledwyd hefyd ar y rhwydwaith, y gomedi sefyllfa seiliedig ar y cymoedd, **The Tuckers**, y rhaglen ddogfen, **A Killing yn Tiger Bay**, sydd hefyd wedi darlledu ar y rhwydwaith a'r rhaglen ddogfen chwaraeon, **Slammed**. Mae'n hanfodol bod unrhyw ofynion rheoleiddio yn y dyfodol yn parhau i ddiogelu a gorau oll os ydynt yn gwella'r ystod a'r amrywiaeth hon o allbwn o ansawdd uchel.

Mae'r gofynion presennol o ran rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, yn enwedig ar BBC Two Wales am 175 awr y flwyddyn, yn ymddangos i ni yn uchel iawn ac, yn y dyfodol, mae perygl iddynt wanhau'r gyllideb cynhyrchu sydd ar gael, o ystyried y rhewi presennol ar incwm ffi'r drwydded. Yn ôl Ofcom, mae lefel ffi'r drwydded hefyd wedi cael ei rhewi am ddwy flynedd, ac mae'r BBC yn amcangyfrif y bydd angen iddo arbed £285 miliwn bob blwyddyn erbyn 2027/28. Rydym yn cytuno â dadansoddiad Ofcom bod defnyddio iPlayer a gwasanaethau ar-lein eraill y BBC yn debygol o

---

<sup>14</sup> <https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualreport/ara-2021-22.pdf>

gynyddu, ond bydd oriau gwyllo teledu llinol yn parhau i ostwng<sup>15</sup> ac, yn y cyd-destun hwn, gall y gofyniad i gynhyrchu oriau heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer BBC Two Wales arwain at gynnwys heb gyrhaeddiad ac effaith.

Mae'n werth nodi mai £21.6m oedd gwariant blynyddol y BBC ar ei hallbwn iaith Saesneg a ddarllidir am y tro cyntaf ar gyfer Cymru yn 2021 (i fyny o £20.8m yn 2020), cynnydd o 4%. Yn ystod yr un cyfnod yn Yr Alban, cododd gwariant y BBC ar raglenni a ddarllidir am y tro cyntaf o £40.6m yn 2020 i £61.9m yn 2021 (cynnydd o 25%). Yn gymesur, gan gymryd cyfran Yr Alban (8.02%) a Chymru (5.2%) o boblogaeth y DU i ystyriaeth, ymddengys fod gwariant iaith Saesneg y BBC ar gyfer Cymru tua 53% (neu ychydig dros hanner) y gwariant ar gyfer Yr Alban yn 2021. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y BBC hefyd yn cyflenwi isafswm o 520 awr o raglenni iaith Gymraeg i S4C, am gost bresennol o £19.4m.

Mae'n gwneud synnwyr yn ein barn ni y dylai fod yn bosibl bodloni gofynion y drwydded yn y dyfodol drwy i'r BBC ddarparu ei gynnwys ar draws ei holl lwyfannau, yn rhai darlledu ac ar-lein. O ystyried y tueddiadau gwyllo ar hyn o bryd, mae'n ymddangos yn ddisynnwyr na fyddai cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer iPlayer yn unig yn cyfrif tuag at y cwotâu heb fod yn rhaglenni newyddion a nodir yn y drwydded. Rydym yn credu y byddai'n well rhoi mwy o hyblygrwydd i BBC Cymru Wales i bennu ystod ei allbwn heb fod yn newyddion ar gyfer Cymru, gan ddarparu'r opsiwn, er enghraifft, o sicrhau gwariant uwch yr awr ar gyfer comisiwn o fri, gan arwain at lai o oriau o allbwn bob blwyddyn a chael mwy o hyblygrwydd o ran sut, ac ar ba lwyfannau, y dylid darparu'r cynnwys. Ond gallai mwy o hyblygrwydd ddod â heriau creadigol newydd, o ran adnoddau staff i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd. Er enghraifft, mae adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2022 ar gyfer Cymru yn nodi bod 45% o bobl yng Nghymru yn berchen ar seinydd clyfar o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 39%<sup>16</sup>. Ac eto, yn ôl yr adroddiad, ar hyn o bryd mae pobl yng Nghymru yn llai tebygol na phobl yn yr Alban neu Loegr o ffrydio cerddoriaeth drwy wasanaethau fel Spotify. Bydd yn rhaid rhoi'r rhyddid i'r BBC i flaenoriaethu'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau, gan gydbwysu'r cyfleoedd creadigol a ddaw yn sgil llwyfannau a gwasanaethau newydd â'i gyfyngiadau staffio ac ariannol presennol.

Fodd bynnag, rydym yn credu y bydd angen mesurau diogelu i sicrhau bod ystod addas o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn parhau i gael eu darparu gan BBC Cymru Wales drwy'r mecanweithiau a amlinellwyd gan Ofcom yn y ddogfen ymgynghori, yn absenoldeb cwotâu penodol. Rydym hefyd yn credu, fel yr eglurir yn nes ymlaen, y dylid gosod gofyniad gwariant yn absenoldeb gofynion sy'n seiliedig ar oriau er mwyn diogelu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion wrth symud ymlaen. Byddai amgylchedd rheoleiddio newydd yn rhoi cyfle i BBC Cymru Wales gymryd trosolwg mwy cyfannol o'i allbwn, yn enwedig gan fod gwyllo teledu byw sy'n cael ei ddarlledu yn gostwng ar y cyfan, ac mae'r data cyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu bod gwyllo ar-lein ar-alw yng Nghymru, er enghraifft drwy BBC iPlayer, yn cynyddu. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, gwnaethom ddadlau felly y *"dylai unrhyw ostyngiad yn y gofynion o ran nifer yr oriau yn y Drwydded Weithredu gael ei raddodi'n ofalus iawn, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i gynulleidfaedd symud o ddefnyddio gwasanaethau llinol i wasanaethau ar-alw, ar-lein."*

<sup>15</sup> t14, dogfen ymgynghori. Mae cyfanswm incwm y BBC wedi disgyn 4.5% mewn termau real ers 2017/18, wedi'i ysgogi gan ostyngiad yng nghyfanswm refeniw ffi'r drwydded, o £4.01 biliwn i £3.75 biliwn.

<sup>16</sup> t47/48, Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2022 Ofcom i Gymru

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y gofynion yn y drwydded ddrafft i fynd i'r afael ag amrywiaeth ar y sgrin yn cael eu cryfhau'n sylweddol iawn, o ran cynrychiolaeth a phortreadu. Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r angen i gynrychioli a phortreadu amrywiaeth eang poblogaeth Cymru ar y sgrin. Er enghraifft, mae yna yng Nghaerdydd gymunedau lleiafrifoedd ethnig sydd wedi hen ymsefydlu yno ac wedi bod yn byw yn y ddinas ers sawl canrif. Mae darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, a siaredir gan oddeutu un rhan o bump o'r boblogaeth, hefyd yn flaenoriaeth uchel ac mae BBC Cymru Wales yn darparu dros 10 awr yr wythnos o raglenni i S4C, y darlledwr Cymraeg, ac yn darparu gwasanaeth newyddion y sianel i Gymru.

### **Cwestiwn 1: Beth yw barn rhanddeiliaid am sut dylai Ofcom asesu a mesur perfformiad y BBC?**

Rydym ni'n croesawu cynnig Ofcom, wrth foderneiddio'r drwydded, i *“roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC lle gall hyn alluogi iddo wasanaethu cynulleidfaoedd yn well, ond cadw cwotâu lle mae angen mesurau diogelu penodol. Mae'r Drwydded arfaethedig yn gwneud rhai cwotâu yn fwy hyblyg ac yn disodli rhai eraill â gofynion i'r BBC ddarparu cynnwys, ynghyd â gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth fanwl<sup>17</sup>.”* Rydym yn cytuno â chynnig Ofcom i osod amcanion ar gyfer pob Diben Cyhoeddus i ddisgrifio'r elfennau allweddol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyflawni. Mae natur ddisgrifiadol yr amcanion yn eu galluogi i fod yn niwtral o ran gwasanaeth a chanolbwyntio ar anghenion y gynulleidfa, gan sicrhau bod cyflawni wrth galon y drwydded. Felly, rydym yn cytuno â'r hyblygrwydd arfaethedig mewn perthynas â'r cwotâu ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion o ran y gwasanaeth i Gymru, ond rydym yn credu ei bod yn bwysig, i wrthbwysio hynny, cael amodau trwydded newydd i ategu'r amcanion hyn.

Mae'r cylch adrodd ac adolygu a ddisgrifir yn Adran 5 yr ymgynghoriad yn egluro sut bydd Ofcom yn gallu 'camu i mewn' pan fydd ganddo bryderon am ddarpariaeth wirioneddol neu arfaethedig y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd. Yn ein barn ni, bydd hyn yn elfen hanfodol yn y broses reoleiddio barhaus. Ar ôl i'r BBC gyhoeddi ei gynllun blynyddol, rydym yn nodi y bydd Ofcom yn adolygu esboniad y BBC yn y cynllun o sut mae'n bwriadu cyflawni amodau ei drwydded. Bydd y BBC yn adrodd ar sut mae wedi cyflawni yn erbyn gofynion ei drwydded yn ei Adroddiad Blynyddol. Bydd Ofcom wedyn yn asesu perfformiad y BBC a'i gydymffurfiaeth ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y BBC. Bydd Ofcom yn gallu camu i mewn yn brydlon pan fydd yn poeni am unrhyw agwedd ar wasanaeth y BBC, ond bydd yn rhaid i unrhyw gamau o'r fath fod yn gymesur, cael eu defnyddio fel dewis olaf ac ni ddylent achosi unrhyw oedi diangen i'r BBC wrth gyflawni ei gynlluniau.

Rydym yn credu y bydd y cylch adrodd ac adolygu hwn yn broses bwysig i ddiogelu'r gwasanaeth ar gyfer cynulleidfaoedd, ond mae gennym rai pryderon ynghylch hyfywedd ac amseriad y broses, o ystyried faint o wybodaeth y bydd yn rhaid i'r BBC ei darparu a'r amser y bydd yn ei gymryd i lunio'r adroddiadau a'r adolygiadau gofynnol. Gellid datrys hyn drwy ganllawiau clir gan Ofcom ynghylch y gofynion adrodd, fel lefel y manylion penodol i genre sy'n ofynnol yn y cynlluniau blynyddol. Ar ben hynny, efallai y byddai'n fwy realistig cynhyrchu'r cynlluniau cyflawni dros gyfnod hwy, efallai dros gylch tair blynedd, heb ddileu gallu Ofcom i ymyrryd ar unrhyw adeg yn ystod y cylch. Fodd bynnag, er ein bod yn croesawu'r gofyniad i'r BBC gyhoeddi ei gynlluniau, nid ydym chwaith yn siŵr i ba raddau, os o gwbl, y bydd y cyhoedd yn ymateb yn uniongyrchol gyda'u safbwyntiau ynghylch allbwn arfaethedig y BBC. Felly, byddai'n werthfawr pe gallai'r BBC adrodd ar sut mae'n bwriadu ymgysylltu

<sup>17</sup> t5. Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC - ymgynghoriad Ofcom

â chynulleidfaoedd er mwyn deall yn well beth y maen nhw am ei gael gan wasanaethau'r BBC ar gyfer Cymru.

Mae tudalen 69 yr ymgynghoriad yn dyfynnu barn Pwyllgor Cyngori Cymru ynghylch amlygrwydd gwasanaethau ar-lein BBC Cymru Wales, *“Ar ben hynny, mae Pwyllgor Cyngori Cymru Ofcom wedi dweud wrthym nad yw'n hawdd dod o hyd i gynnwys sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar wasanaethau ar-lein y BBC, fel BBC iPlayer a BBC Sounds.”* Felly, rydym yn croesawu nod Ofcom i ddatblygu *“Amodau ychwanegol i sicrhau bod y BBC yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w holl raglenni ar ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds.”* Ar hyn o bryd rydym yn credu ei bod yn gymharol anodd dod o hyd i gynnwys BBC Cymru Wales o fewn amgylchedd iPlayer a dylid rhoi mwy o amlygrwydd iddo. Byddem yn croesawu, er enghraifft, cynnig i ganiatáu i'r rhyngwyneb gael ei addasu'n well, a'i deilwra i anghenion pob gwlad, gan roi cyfleoedd i BBC Cymru Wales hyrwyddo ei gynnwys sydd wedi'i wneud yn benodol ar gyfer Cymru.

Gan fod Ofcom yn bwriadu dileu'r cwota oriau blynyddol sydd heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales yn y drwydded newydd, credwn y bydd yn hanfodol sicrhau y bydd trefniadau tryloywder newydd ar waith sy'n mynnu bod y BBC, drwy ei Gynllun Blynyddol, yn ymrwymo i lefelau cyflawni penodol. Yn ein barn ni, byddai hyn yn golygu nodi cynigion manwl ar gyfer darparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys nifer yr oriau o gynnwys ar gyfer cyfres benodol a sut byddai'r oriau hyn yn cael eu dosbarthu ar draws y llwyfannau sydd ar gael, naill ai drwy iPlayer un ai'n fyw neu ar-alw a/neu drwy sianeli darlledu llinol BBC Cymru Wales ar freeview, lloeren a chebl yng Nghymru. Er ein bod yn derbyn nad rôl Ofcom yw darparu cymeradwyaeth olygyddol ar gyfer y cynlluniau blynyddol hyn, rydym yn credu y bydd yn hanfodol bod Ofcom yn darparu digon o arweiniad i sicrhau bod ystod addas o raglenni'n cael eu darparu ar gyfer gwylwyr a defnyddwyr ar-lein yng Nghymru. Un mesur diogelu allweddol fyddai ymrwymiad gan BBC Cymru Wales i beidio â lleihau'r gwariant drwyddi draw ar ei allbwn heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales. Mae Ofcom eisoes wedi cynnwys gofyniad trwydded, wedi'i fynegi o ran oriau allbwn a gwariant gan y BBC ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yng Nghymru, sy'n cyfeirio at gynhyrchu mewn gwahanol ganolfannau yng Nghymru. Rydym yn credu y byddai gofyniad tebyg yng nghyswllt allbwn heb fod yn rhaglenni newyddion BBC Cymru Wales yn gam diogelu pwysig ac yn helpu i sicrhau bod gwasanaeth addas o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu i wylwyr yng Nghymru, ar draws pob llwyfan.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4? Os nad ydych, esboniwch pam os gwelwch yn dda.** Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar yr adrannau hynny o'r Drwydded Weithredu sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwasanaethau'r BBC yng Nghymru. Mae'r rhain yn eu tro yn adlewyrchu **Diben 4 Dibenion Cyhoeddus y BBC**, *“Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig”*, fel y nodir yng nghymal 1.35 y drwydded gyfredol.

#### **Gwasanaethau Teledu ac Ar-lein**

Croesawn y geiriad yng nghymal 4.51:

*“Mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Wales, BBC Two Wales, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn*

*berthnasol i gynulleidfaedd yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru".*

Fodd bynnag, rydyn ni'n credu y gellid cryfhau hyn yn unol â'r geiriad yng Nghymal 1.39 y drwydded bresennol, lle mae'n rhaid i'r BBC *"sichrau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau'n gwasanaethu ac yn creu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i'r bobl sy'n byw yn yr ardal y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys darlledu mewn ieithoedd brodorol ac amrywiaeth eang o genres, gan gynnwys drama, comedi a chwaraeon; a chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau."*

Gan na fydd yr amrywiaeth o genres sydd i'w cynnwys yn yr allbwn sydd heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales (y tu allan i newyddion a materion cyfoes) yn cael eu pennu o ran cwtâu yn y drwydded newydd, mae gofyniad i sichrau amrediad ac amrywiaeth ddigonol yng nghynnyrch BBC Cymru Wales, a fydd, yn ei dro, yn adlewyrchu bywyd a diwylliant bywiog y genedl Gymreig, yn hanfodol. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r gofyniad hwn wedi'i ddatgan yn benodol yn yr adran sy'n rhoi sylw i Ddiben 4 y BBC yn y drwydded ddrafft newydd er bod gofyniad tebyg wedi'i nodi yn yr amcanion a ddatgenir yn yr adran sy'n rhoi sylw i Ddiben 3: *Amcan 2: dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o allbwn gan roi sylw i amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys genres nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys: cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant)*<sup>18</sup>. Yn ein barn ni, mae angen datgan gofyniad tebyg yn benodol mewn perthynas ag allbwn y BBC ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau gan gynnwys Cymru, am y rhesymau a nodir uchod ac fel y nodir yn ein hymateb i Gwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

Nodwn eiriad y drwydded ddrafft ar gyfer gwasanaethau BBC One Wales a BBC Two Wales:

4.55 Mewn perthynas â BBC One Wales, mae'n rhaid i'r BBC sichrau ym mhob Blwyddyn Ariannol:

4.55.1 bod o leiaf 275 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a  
4.55.2 ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

4.56 Mewn perthynas â BBC Two Wales, mae'n rhaid i'r BBC sichrau ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Mae cynnwys y gofyniad am rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn bwysig iawn yn ein barn ni, ac nid yw'n bodoli yn y drwydded bresennol. Bydd y BBC dan bwysau difrifol i arbed costau yn y dyfodol a bydd sichrau bod rhywfaint o rhaglenni newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru yn mynd i'r afael â'r temtasiwn i lenwi'r gwasanaeth gydag aildarllediadau.

Gan y bydd y drwydded newydd yn galluogi BBC Cymru Wales i ddatblygu ymateb darparu gwasanaeth sy'n niwtral o ran llwyfan er mwyn cyflawni gofynion y drwydded, credwn fod y gofynion presennol, sydd i'w hatgynhyrchu yn y drwydded newydd o ran darpariaeth ar-lein BBC

---

<sup>18</sup> T11 Trwydded Weithredu Ddrafft y BBC, Ofcom

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0024/239145/annex-9-bbc-operating-licence-june-22.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/239145/annex-9-bbc-operating-licence-june-22.pdf)

Cymru Wales, braidd yn annigonol yn ôl pob golwg ac nad ydynt yn cymell arloesi a phosibiliadau cynnwys creadigol newydd:

4.53 Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

4.53.1 newyddion a gwybodaeth ar gyfer Cymru;

4.53.2 darpariaeth chwaraeon benodol ar gyfer Cymru; a

4.53.3 cynnwys yn Gymraeg.

Rydyn ni'n credu y dylid cryfhau a gwella'r gofynion hyn i fod yn fwy cynhwysfawr, gan roi'r cyfle i BBC Cymru Wales ddatblygu cynnwys creadigol ar-lein sy'n ymdrin, er enghraifft, â cherddoriaeth, y celfyddydau, addysg a chynnwys ffeithiol arall yn ogystal â'r genres sydd eisoes wedi cael mandad. Nid yw'n glir chwaith yn y drwydded newydd sut bydd y gofynion hyn yn cyd-fynd â chynnwys BBC Cymru Wales a fydd ar gael ar iPlayer. Yn ein barn ni, dylai'r holl raglennu ar BBC Wales gael ei ddarlledu mewn slotiau amlwg y gellir cael gafaal arnynt yn hawdd ar iPlayer.

## Radio

Nodwn eiriad y drwydded ddrafft sy'n mynegi'r oriau o allbwn y mae'n rhaid i Radio Wales a Radio Cymru eu darlledu o ran cyfansymiau blynyddol yn hytrach nag oriau'r wythnos. Gan ystyried y rhesymau a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori ynghylch symleiddio gofynion adrodd, eu gwneud yn llai beichus ac yn fwy hyblyg, rydym yn cytuno â'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Ofcom yn yr achos hwn. Mae'n ddiddorol nodi bod BBC Cymru Wales wedi cyhoeddi ei bwriad, ym mis Awst eleni, i gynyddu oriau darlledu'r gwasanaeth Gymraeg, BBC Radio Cymru 2, o 15 i 60 awr yr wythnos. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu'n gyfan gwbl drwy lwyfannau digidol (DAB ac ar-lein, gan gynnwys drwy seinyddion clyfar).

## Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: rhaglenni rhwydwaith

### BBC Cymru Wales yn Cyflenwi'r Rhwydwaith

Rydym yn croesawu'r cwota o 50% y tu allan i'r M25 o ran cynhyrchu a gwariant ac rydym hefyd yn nodi nad yw'r cwota cyflenwi cynyrchiadau ar gyfer BBC Cymru Wales wedi newid yn y drwydded ddrafft newydd, gan ei fod wedi cynyddu o 4% i 5% eleni yn achos yr oriau o raglenni rhwydwaith y mae'n rhaid eu cynhyrchu yng Nghymru:

4.20 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.20.1 ym mhob Blwyddyn Galendr bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; a

4.20.2 ym mhob Blwyddyn Galendr bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.

Nodwn fod cymal 4.21 yn darparu mecanwaith i'r BBC wneud cais i leihau'r cwota oriau mewn blwyddyn galendr benodol.

Er enghraifft, roedd bron i dair gwaith yn fwy o bobl wedi gwyllo'r cyfresi drama **Hidden a Keeping Faith**, a gomisiynwyd gan BBC Cymru Wales, oherwydd eu bod ar gael ar BBC iPlayer yn ystod 2017/18, gyda'r ceisiadau i wyllo wedi cynyddu i 45 miliwn yn 2018 o 14 miliwn yn 2017.

Cynhyrchwyd **Keeping Faith** yn wreiddiol gan Vox Pictures yn Gymraeg ar gyfer S4C fel **Un Bore Mercher**, ac arweiniodd llwyddiant y gyfres Saesneg a gomisiynwyd ar y cyd gyda BBC Cymru Wales



ar iPlayer at gyfres ddilynol yn cael ei chomisiynu ar gyfer y Rhwydwaith. Mae sylw ar iPlayer o bosibl yn chwalu'r gwahaniaeth rhwng rhaglenni penodol ar gyfer Cymru a chomisiynau rhwydwaith, ac efallai y bydd angen ailedrych ar natur y cwotâu cyflenwi'r rhwydwaith yn y dyfodol, er mwyn i gyllidebau mwy fod ar gael ar gyfer cynnwys sydd efallai, yn y lle cyntaf, wedi cael ei gomisiynu ar gyfer Cymru. Fel yr awgrymwyd yn gynharach, rydyn ni'n credu y gallai cwotâu gwariant tebyg weithio ar gyfer gofynion allbwn heb fod yn rhaglenni newyddion BBC Cymru Wales, os byddir yn rhoi'r gorau i gwotâu ar sail oriau. Mae buddsoddiad mawr mewn drama, ond os ystyrir ei bod yn berthnasol ac yn benodol o safbwynt diwylliannol, mae'r enillion o ran effaith yn esbonyddol. Dylai cyflenwad y rhwydwaith fuddsoddi mewn drama sy'n benodol o safbwynt diwylliannol, sy'n profi i fod yn gyffredinol, gan fod hynny'n galluogi i gyfoeth ac amrywiaeth y DU gael eu portreadu'n llawn i'r gynulleidfa ehangaf sy'n bosib.

**PCC**

**Medi 2022**